# Fframwaith llythrennedd

# Deunyddiau enghreifftiol

Blwyddyn: 3

Enw'r dasg: Darlunio darlun anodedig o gysawd yr haul, ymchwilio i wybodaeth am y planedau.

**Gwybodaeth gefndirol :-**

- Astudio ac ymchwilio cychwynol i gysawd yr haul
- Gwaith grwp yn ymchwilio i un blaned yn arbennig.
- Creu darlun anodedig o gysawd yr haul gan ymchwilio i drefn y planedau oddi wrth yr haul a'u maint.
- Defnyddio'r we a llyfrau cyfeiriol i ymchwilio i'r planedau.

**Sgiliau llythrennedd o fewn y fframwaith :**

**Darllen ar draws y cwricwlwm :-**

- Darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio.
- Dod o hyd i wybodaeth ar dudalenau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin e.e. barau offer, barau ochr, penawdau, saethau.

**Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm :-**

**Ystyr, dibenion, darllenwyr.**

- Cynnwys manylion, gwybodaeth neu sylwadau perthnasol yn eu gwaith ysgrifennu.

**Strwythur a threfn**

- Defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol e.e. diagramau wedi'u labelu.

**Iaith**

- Defnyddio iaith sy'n gysylltiedig a'r pwnc neu a chyd-destun y pwnc.


**Llawysgrifen**

- Cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol gan gyfuno llythrennau mewn ambell le.

Tystiolaeth



# YR HAUL



Seren fawr boeth ydi'r haul.
Mae'r  haul yn boethach na lafa.
Yr haul yw'r seren agosaf at y Ddaear.
Mae'r haul tua,,4,000,000 o flynyddoedd oed.
Mae pwysau'r haul tua 330,000 gwaith yn fwy na pwysau'r Ddaear.
Mae diamedr yr haul tua 865,000 milltir.
Peidiwch bytha edrych ar y haul!!!!!!!!
Mae'r haul yn belen fawr o dan.
Gwynt solar yw enw'r egni sy'n dod o'r haul.
Y rhannau coch yw'r rhanau oeraf.
Weithiau bydd egni'r haul yn ffrwydro allan o'r haul.
Pelen fawr o nwy a helium ydi'r haul.
Enw'r niwl ar yr haul ydi corona.
Tymeredd canol yr haul ydi 75,000 gradd selsiws.
Yr haul sydd yng nghanol cysawd yr haul.
Tymheredd wyneb yr haul ydi 9,932 gradd selsiws.
Yr haul sy'n rhoi'r holl olau a gwres i'r planedau.
Enw'r ffrwydrad syn dod allan o'r haul ydi ffagliad heulol.
Dydi rhai darnau o'r haul ddim mor boeth a'r gweddill.
Mae jetiau o nwy poeth yn saethu allan o'r haul.